COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 18 MAI 2021, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |
| NA Burnett | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Philip O'Brien | Rheolwr Trawsnewid Digidol a Gwasanaethau Cwsmer |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |

657. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cyhoeddodd y Cynghorydd Huw David, Arweinydd, fuddiant personol yn eitem 8, Cyn Ystad Ddiwydiannol Heol Ewenny: Cyllid CCR ac Ailddatblygiad Arfaethedig oherwydd ei fod yn aelod o Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac y byddai'n ymwneud yn y pen draw â gwneud penderfyniad ar y cynnig hwn. Fe'i penodwyd i'r Cabinet hwnnw gan yr awdurdod hwn ac felly roedd yn datgan budd personol. Roedd hefyd yn Gadeirydd Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn ymwneud ag ystyried ffyrdd o symud y cyfleuster parcio a theithio ar y safle hwn yn ei flaen.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Nicole Burnett, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ddiddordeb personol yn eitem 10, Ail-Gomisiynu Gwasanaethau Byw â Chefnogaeth Arbenigol, oherwydd bod ganddi gyfrifoldebau cyd-rianta ar gyfer plentyn ag anghenion cymhleth sy'n mynd trwy'r broses bontio.

658. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod 09/03/21 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

659. BWRDEISTREF DDOETHACH - TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro adroddiad yn rhoi'r cefndir, y datganiad sefyllfa cyfredol a chynnig i'r Cabinet i argymell i'r Cyngor y dylid cynnwys cyllideb o £595,000 yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer gweithredu'r cynnig Bwrdeistref Ddoethach - Teledu Cylch Cyfyng (CCTV). Esboniodd fod y system teledu cylch cyfyng bresennol ar draws y fwrdeistref wedi bod mewn gwasanaeth ers 20 mlynedd, ac yn ystod yr amser hwnnw, uwchraddiwyd y system sawl tro i'w chadw'n weithredol heb orfod gwario symiau mawr. Roedd y system bellach wedi cyrraedd y

pwynt lle roedd yr offer ar ddiwedd ei oes waith ac roedd problemau cydweddoldeb yn dod i'r golwg yn amlach gan nad oedd rhannau newydd yn cael eu cynhyrchu mwyach gan arwain at ddadgomisiynu camerâu.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod gwasanaeth teledu cylch cyfyng y Cyngor wedi helpu'r Cyngor a'r Heddlu i ymgymryd â dull un sector cyhoeddus wrth atal a mynd i'r afael â materion â blaenoriaeth fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais, lladrad ac wedi cael effaith sylweddol ar sut mae preswylwyr yn teimlo'n ddiogel. Roedd y ddarpariaeth teledu cylch cyfyng ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyfrannu'n amlwg at ostwng y cyfraddau troseddu cyffredinol yn yr ardal a gwelwyd tystiolaeth o'r ffigurau digwyddiadau rhwng Mehefin 2017 a Mai 2019 a nododd fod y gwasanaeth teledu cylch cyfyng a ddarparwyd gan CBSPAO wedi cynorthwyo'n llwyddiannus gydag ymchwiliadau 1484 o ddigwyddiadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 146 o ddigwyddiadau ym Maesteg, 89 o ddigwyddiadau ym Mhorthcawl, a 29 o ddigwyddiadau ym Mhencoed. Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CSP) wedi nodi'n ddiweddar y gallai fod yn barod i wneud cyfraniad parhaus at wasanaeth cynaliadwy. Roedd trafodaethau yn parhau ar hyn o bryd ochr yn ochr â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog ynghylch cyfraniad cyfalaf tuag at gynnig Bwrdeistref Ddoethach - Teledu Cylch Cyfyng.

Esboniodd y Pennaeth Partneriaethau y byddai unrhyw uwchraddiad i'r ddarpariaeth teledu cylch cyfyng yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a deddfwriaeth diogelu data. Amlinellodd gostau refeniw blynyddol cyfredol rhedeg y gwasanaeth teledu cylch cyfyng 24/7 fel y nodwyd ym mharagraff 8.2 o'r adroddiad. Rhagwelwyd, o dan y cynnig newydd, y byddai cyfanswm y costau rhwydwaith, cynnal a chadw a meddalwedd parhaus yn gostwng £20,000 y flwyddyn yn amodol ar ymarfer caffael llwyddiannus.

Esboniodd y Pennaeth Partneriaethau y byddai Bwrdeistref Ddoethach yn helpu'r Cyngor i fonitro a rheoli adnoddau, gyda'r nod o arbed amser ac arian. Byddai'r rhwydweithiau a'r gwasanaethau presennol yn cael eu gwneud yn fwy effeithlon trwy ddefnyddio technolegau digidol er budd preswylwyr a busnesau yn yr ardal. Byddai'r technolegau hyn yn helpu i ddarparu gwell rheolaeth traffig, parcio craff, gwell gwasanaethau dŵr a gwastraff, goleuadau mwy effeithlon a defnyddio ynni'n fwy effeithlon mewn adeiladau a seilwaith mwy diogel, ymhlith buddion eraill. Gallai'r Cyngor ddarparu gwasanaeeth Wi-Fi trwy osod gwasanaethau Wi-Fi ar y seilwaith Teledu Cylch Cyfun presennol. Byddai mabwysiadu model “defnydd cyhoeddus diderfyn am ddim” yn annog defnyddwyr i ymweld â thudalen glanio Wi-Fi y Cyngor i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn ddiogel.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau i'r swyddogion am yr adroddiad ac am y newyddion bod trafodaethau yn parhau gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan ei fod yn credu bod yr heddlu yn un o brif fuddiolwyr y system teledu cylch cyfyng. Roedd y cynigion yn mynd gryn dipyn ymhellach na'r system teledu cylch cyfyng gyfredol a gellid eu hystyried fel y camau cyntaf wrth greu bwrdeistref wifi. Roedd yn gyffrous gweld sut y gallai'r datblygiad hwn fynd â'r Fwrdeistref yn ei blaen o ran gweithio mewn partneriaeth a gwasanaethau i breswylwyr.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn arbennig o gyffrous fel un o Aelodau Canol y Dref a'r gwelliannau i ganfyddiad preswylwyr o ddiogelwch yn y dref. Roedd hi'n teimlo'n gryf bod gallu cyrchu wifi am ddim yn hawl i bawb ac roedd hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod clo diweddar wrth helpu teuluoedd i gael mynediad at gynnwys digidol.

Cytunodd yr Arweinydd ac ychwanegodd fod darpariaeth teledu cylch cyfyng yn offeryn hanfodol o ran diogelwch cymunedol ac atal troseddau ledled y fwrdeistref.

Cytunodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Lles a Chenhedlaeth y Dyfodol â'r sylwadau a wnaed a gofynnodd am sicrwydd ynghylch GDPR a rhyddid sifil oherwydd gallai fod yn bryder i rai preswylwyr. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro nad oedd y cynnig yn annhebyg i'r hyn a oedd gennym ar hyn o bryd ac wrth iddo fynd yn ei flaen, byddai'r awdurdod yn mynd trwy reolau a rheoliadau GDPR. Ychwanegodd y Pennaeth Partneriaethau y byddai'n cydymffurfio â chod Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth o ran darpariaeth teledu cylch cyfyng.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol am adroddiad pellach pan fyddai’r cynlluniau yn cael eu datblygu. Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro mai'r bwriad oedd mynd â'r adroddiad i'r Cyngor ym mis Mehefin ac yn dilyn hynny i sicrhau darparwr i roi'r rhwydwaith i mewn ac o'r pwynt hwnnw byddent yn dod yn ôl gyda gwahanol opsiynau.

Ychwanegodd yr Arweinydd eu bod yn cael eu rheoleiddio gan fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr a bod yn rhaid iddynt gofnodi a chofrestru defnydd mewn ffordd benodol a dim ond at ddibenion penodol y gellid defnyddio teledu cylch cyfyng a hynny gyda chaniatâd swyddogion dynodedig o fewn y sefydliad. Roedd hyn er mwyn sicrhau tryloywder.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar am ychwanegu camerâu ychwanegol i'r system ar gyfer materion fel parcio y tu allan i ysgolion a gofynnodd a oedd lle i ysgolion brynu i mewn i sicrhau diogelwch y cyhoedd a hefyd gamerâu symudol ar gyfer mannau problemus. Atebodd Rheolwr y Grŵp Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmeriaid y byddai adeiladu'r seilwaith teledu cylch cyfyng a'i uwchraddio yn rhoi cyfle i edrych ar osod camerâu symudol i gwmpasu problemau posibl ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys parcio. Byddai hyn yn rhan o'r ail gam. Cadarnhaodd y byddent yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a chamerâu IP gyda gwell technoleg i roi delweddau gwell a chwmpas ehangach a fyddai'n hanfodol o ran canfod troseddau ac erlyn.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod yr awdurdod wedi manteisio i’r eithaf ar y system bresennol a oedd yn cael ei gwerthfawrogi gan yr heddlu a'r cyhoedd. Roedd preswylwyr yn dawel eu meddwl eu bod nhw a'u plant yn cael eu hamddiffyn. Roedd llawer mwy i hyn na rhaglen adnewyddu teledu cylch cyfyng; roedd yn ymwneud â chreu bwrdeistref sirol ddoeth a chraff. Roedd y cyfleoedd yn gyffrous ac o fudd i ddinasyddion lleol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ac yn argymell adroddiad i'r Cyngor yn cymeradwyo cynnwys y cynnig Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yn y rhaglen gyfalaf gyda chyllideb o £595,000.

660. <u>CONTRACT RHEOLI PLÂU</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro adroddiad yn rhoi’r cefndir, y sefyllfa bresennol a’r opsiynau i’r Cabinet i bennu’r ffordd ymlaen a ffefrir o ran gwasanaeth rheoli plâu yn dilyn adroddiad blaenorol y Cabinet ar 19 Ionawr 2021 pan gytunwyd i archwilio opsiynau amgen pellach. Cymeradwyodd y Cabinet hefyd atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Gontract y Cyngor i ymrwymo i gontract tymor byr gyda'r darparwr gwasanaeth rheoli plâu cyfredol Rentokil tra bod opsiynau pellach

yn cael eu harchwilio. Dywedodd fod Rentokil wedi cytuno i ymestyn y contract cyfredol tan fis Hydref 2021, a'u bod wedi dweud hefyd mai hwn oedd yr estyniad hiraf y byddent yn cytuno iddo o dan delerau'r contract cyfredol.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y cyflwynwyd tri opsiwn i'r Cabinet ym mis Ionawr 2021 ond y penderfyniad a gymerwyd gan y Cabinet oedd ymestyn y contract cyfredol wrth archwilio opsiynau pellach. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2019 wedi gofyn am farn ar gynigion penodol i leihau cyllideb ar draws cyfarwyddiaethau'r Cyngor ac roedd yn cynnwys cwestiwn i gael barn preswylwyr ar wasanaeth rheoli plâu. Nododd 58% o'r ymatebwyr eu bod o'r farn nad y Cyngor oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth rheoli plâu. Gofynnwyd cwestiwn atodol i ymatebwyr ynghylch a ddylai'r cyngor ystyried codi tâl am y gwasanaethau hyn a dim ond 16% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a nododd y dylai'r gwasanaeth barhau i fod yn rhad ac am ddim i breswylwyr.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro at y gofyniad i'r contractwr ymateb i bob cais am drin pla yn y cartref o fewn 3 diwrnod gwaith. Nid oedd hyn yn ddelfrydol oherwydd bod gofyn wedyn i'r preswylwyr aros am yr ymweliad gan nad oedd modd cytuno ar amser ymlaen llaw. Oherwydd hyn, gwnaed lefel uchel o alwadau yn ofer gan nad oedd preswylwyr yn yr eiddo pan gyrhaeddodd y technegydd rheoli plâu. Roedd hyn yn bwysig ar gyfer contract newydd o ran manyleb. Mae'r arwyddion o'r farchnad yn awgrymu y bydd cost contract y dyfodol yn debygol o gynyddu.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cysylltu â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru i nodi pa wasanaeth rheoli plâu domestig sy'n cael ei gynnig i'w preswylwyr. O'r 21 awdurdod y cysylltwyd â nhw, ar wahân i ddau opsiwn arall a nodwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ni ddarparodd unrhyw awdurdod unrhyw opsiynau amgen pellach gan fod y mwyafrif naill ai'n darparu gwasanaeth y mae'n rhaid talu amdano'n llawn, neu heb ddarparu gwasanaeth o gwbl. Amlinellodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y pum opsiwn i'w hystyried.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r swyddogion am eu gwaith a dywedodd y byddai'n well ganddi opsiwn a oedd yn rhad ac am ddim. O'r 5 opsiwn, roedd 2 yn cynnwys codi tâl a byddai'n well ganddi i'r 2 hynny beidio â chael eu datblygu ymhellach gan y dylid cael gwasanaeth rheoli plâu am ddim. Digwyddodd yr ymgynghoriad cyn y pandemig ac ni allent ddibynnu ar y canlyniad. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau yn ystod y pandemig ac os gofynnwyd yr un cwestiwn i breswylwyr eto, credai y byddent yn cael ymateb gwahanol iawn. Roedd hefyd wedi gweld tystiolaeth o hyn o'i gwaith achos ei hun a thrafodaethau gydag aelodau eraill. Awgrymodd yr Aelod Cabinet y dylai'r awdurdod barhau â gwasanaeth am ddim ac archwilio naill ai opsiwn 3, 4 neu 5.

Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro, pe byddent yn dewis opsiwn 3, byddai angen iddynt ymgynghori. Roedd pethau'n dynn iawn o ran amserlenni a byddai'r ymgynghoriad hwn yn cymryd 3 mis. Nid oedd angen ymgynghori ag opsiynau 4 a 5. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'n hapus i symud ymlaen gydag opsiynau 4 neu 5.

Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gyda'r Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol ac roedd yn well ganddynt hefyd opsiynau 4 neu 5. Nid oedd yn teimlo bod darparwr allanol wedi'i gymell yn ddigonol i fynd i'r afael â'r broblem a'i datrys. Nid oedd y problemau yn y gymuned yn cael sylw ac roedd hynny'n gofyn am ddull cydgysylltiedig sy'n gysylltiedig â gorfodi ac iechyd yr amgylchedd. Pwy oedd yn gyfrifol am y boblogaeth llygod mawr? Roedd angen ystyried

nifer o faterion mewn ffordd fwy strategol a dim ond yr awdurdod a allai wneud hynny. Roedd angen datrysiad tymor hir ac nid ateb dros dro ac roedd yn rhaid i'r ateb fod yn rhad ac am ddim.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd llygod mawr yn briodol mewn unrhyw amgylchedd boed yn wledig neu'n drefol. O ran yr ymgynghoriad cyhoeddus, credai 59% nad y Cyngor oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaeth. Gofynnodd a oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ymwybodol bod darparwr trydydd parti ac roedd hyn yn arwydd nad oeddent yn hapus gyda'r gwasanaeth. Hefyd roedd arwydd y byddai llai nag 1 o bob 5 yn hapus i dalu. Roedd yn cofio pan aeth hyn i'r pwyllgor trosolwg a chraffu, roedd pryder am yr effaith ar aelwydydd incwm isel a phwy oedd yn berchen ar y llygoden fawr. Pe byddent yn dechrau codi tâl ni fyddai unrhyw un yn ffonio'r Cyngor i gael gwared ar y llygoden fawr. Cyfrifoldeb y Cyngor oedd rheoli'r boblogaeth llygod mawr. Nid oedd peidio â darparu'r gwasanaeth yn opsiwn. Roedd yn well ganddo opsiwn 4 neu 5 er nad oedd unrhyw arwydd o bris ar gyfer opsiwn 4. Credai y dylent fynd allan i dendr i ddarparu gwasanaeth rheoli llygod mawr strategol gan ddarparu'r gwerth gorau am arian.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau hefyd yn gwyro tuag at opsiynau 4 a 5. Nid oedd yn synnu bod y boblogaeth llygod mawr yn mudo yn sgil cau bwytai a chaffis. Gallai hyn newid yn y dyfodol wrth i fusnesau ailagor. Yn syml, roedd hyn wedi gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r boblogaeth llygod mawr yn eu hamgylchedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyn y pandemig ac efallai y byddai'r canfyddiadau bellach yn wahanol. Roedd dod â'r gwasanaeth i ben yn rhywbeth na ellid ei ddychmygu ac roedd yn hapus gydag opsiynau 4 neu 5.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y byddai angen i'r awdurdod, yn ôl y disgwyl, fynd am yr opsiwn sy'n rhoi'r gwerth gorau. O ran y cwestiwn pwy oedd yn berchen ar y llygoden fawr, darparodd opsiwn 3 ddatrysiad fel petai'r llygoden yn y tŷ, a bod gwasanaeth am ddim. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, byddai'n rhaid iddynt fynd allan i dendro gyda manyleb a gweld beth fyddai'r farchnad yn ei ddarparu o ran gwell gwasanaeth.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar iddynt edrych ar strategaeth i ddifa yn hytrach na rheoli poblogaeth y llygod mawr ac y dylai'r tendr adlewyrchu hyn. Credai y byddai arbedion tymor hir pe bai hyn yn cael ei drin yn iawn yn y lle cyntaf. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd y byddai llygod mawr yn bresennol bob amser ac felly roedd yn bwysig cael cyfuniad o wasanaeth rhagweithiol ac adweithiol.

Dywedodd yr Arweinydd na ellid mynd i'r afael â'r mater gan un asiantaeth yn unig a bod angen strategaeth amlasiantaethol ar draws y fwrdeistref. Gallent hefyd ystyried ymgynghori gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Esboniodd Rheolwr y Grŵp Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmeriaid fod cymal i gynnal perthnasoedd gwaith agos ag SRS yn y contract cyfredol. Cysylltodd Rentokil ag SRS i fynd i'r afael â materion fel sbwriel yn yr ardd a byddai'n gweithio i fynd i'r afael â'r materion. Byddent yn sicrhau y byddai hynny'n cael ei ystyried yn y fanyleb yn y dyfodol.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod dwy ran i hyn, y strategaeth sef rhan SRS a rheoli plâu a oedd ar ben hynny. Roedd dull strategol ar fod eisoes.

Atebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn ymwybodol ohono a bod ganddi brofiad ohono ac yn ei barn hi nid oedd yn symud yn ddigon cyflym nad oedd yn ddigon effeithiol. Roedd yna lawer o symud pethau yn ôl ac

ymlaen ac nid oedd ymgais i ddarganfod a datrys yr achos sylfaenol yn ddigon effeithiol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Do y byddent yn mynd â hyn trwodd i'r Bwrdd SRS.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

- Wedi ystyried yr opsiynau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac wedi cytuno i gyhoeddi tendr.
- Eisiau darparu gwasanaeth am ddim ac yn ffafrio opsiynau 4 a 5 fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

661. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD - DOGFEN YMGYNGHORI CYHOEDDUS Y CYNLLUN ADNEUO

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi Drafft Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (LDPDD) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2021 am gyfnod o 8 wythnos yn unol â'r Cytundeb Datblygu a gymeradwywyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y LDPDDD wedi ei baratoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn sail i baratoi CDLl Newydd 2018-2033. Roedd y ddogfen yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Ar ôl ei gwblhau a'i fabwysiadu, byddai'r CDLl Newydd yn disodli'r CDLl presennol (2006-2021) fel y Cynllun Datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Pwysleisiodd mai dogfen ymgynghori oedd hon a byddai'r holl sylwadau a dderbynnir yn cael ystyriaeth ddyledus cyn anfon fersiwn derfynol at Lywodraeth Cymru i'w mabwysiadu. Yna byddai archwiliad Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn gyhoeddus a byddent yn craffu ar y ddogfen eto. Ar yr adeg hon, gallai'r Arolygydd ychwanegu neu dynnu rhannau o'r cynllun ac yna byddent yn adrodd yn ôl gyda'r cynllun yr oeddent am i'r Cyngor ei fabwysiadu. Yna cyfrifoldeb y Cyngor llawn fyddai mabwysiadu'r CDLl ai peidio.

Esboniodd Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu ar gyfer y rhai nad oeddent yn gyfarwydd â'r broses, fod y CDLl yn strategaeth lefel uchel y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chynhyrchu. Roedd yn rhoi mewn termau defnydd tir nodau a dyheadau cyffredinol yr awdurdod ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a blaenoriaethau Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn ddarn sylweddol, hanfodol o waith y byddai'r awdurdod hebddo yn agored i ddatblygiadau hapfasnachol a chynllunio trwy apêl.

Amlinellodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth rai o'r agweddau eraill a fyddai'n cael eu darparu gan y CDLl newydd gan gynnwys lleoedd cynaliadwy trwy nodi lleoedd. Byddai'r CDLl yn ceisio darparu cartrefi di-garbon sy'n cefnogi'r strategaeth datgarboneiddio. Ychwanegodd y byddai'r pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth y CDLl presennol yn lleihau'n raddol o 2021 gan roi'r Cyngor mewn sefyllfa lle byddai'n agored i heriau gan y diwydiant datblygu. Felly roedd yn hanfodol eu bod yn parhau i ddatblygu'r CDLl newydd. Esboniodd strwythur y ddogfen ac amlinellodd y gwahanol gydrannau.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn gwerthfawrogi'r holl waith mawr a oedd wedi mynd i'r ddogfen ers ei thrafod gyntaf yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Gallai weld y pwyslais ar adeiladu cymunedau newydd a mynd i'r afael â'r angen am fwy o dai yn y cymunedau. Roedd yna gynlluniau a allai fod yn ddadleuol i rai preswylwyr ond pwysleisiodd mai hwn oedd y cam ymgynghori. Gofynnodd am sicrwydd y byddent yn buddsoddi yn y cymunedau a oedd ganddynt

eisoes yn ogystal â buddsoddi mewn rhai newydd ac a fyddai'r Cyngor yn gweithio ar anghenion tai mewn ffordd gyfannol. Roedd demograffeg yn newid gyda mwy o bobl sengl ac roedd yn rhaid iddynt ystyried gwahanol strategaethau fel y cynllun rhentu ystafell ac edrych ar y cyfan yn gyfannol.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio i'r tîm am y ffordd yr oeddent wedi cyflawni'r dasg. Roedd yn falch eu bod wedi cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn gynnar yn y broses. Roedd hefyd yn hapus bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno fel dogfen ymgynghori ar ôl gweld newyddion ffug a chamwybodaeth eisoes. Roedd hon yn ddyletswydd statudol a dylai pob Cyngor fod yn ei wneud a byddai'r rhai a fyddai'n methu â gwneud hynny yn agored i geisiadau marchnad rydd, hap-geisiadau a datblygiad annymunol. Credai fod y farchnad dai wedi methu gyda gormod o dai o'r math anghywir a dim digon o'r math cywir. Roedd tai anfforddiadwy, ail gartrefi a chydbwysedd anghyfartal rhwng cynghorau a datblygwyr y sector preifat. Gallai CDLl cadarn gefnogi datblygwyr ac amddiffyn preswylwyr rhag cynigion annymunol. Roedd ganddo 3 neges allweddol i'r cyhoedd, roedd safleoedd ymgeisiol yn rhai ymgeisiol yn unig, roedd y cynllun yn agored i ymgynghori a byddai pobl yn gwrando ar sylwadau ac yn gweithredu arnynt a dylai preswylwyr anfon eu sylwadau a fyddai'n cael eu hystyried ar sail cynllunio. Byddai'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad fel aelod o'r ward ac yn ei rinwedd ei hun yn seiliedig ar resymau cynllunio.

Cydnabu'r Aelod Cabinet dros Gymunedau yr holl waith rhyfeddol a'r ymroddiad a oedd wedi mynd i'r ddogfen gan dalu teyrnged i'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu a'r Rheolwr Cynllunio a Thrafnidiaeth Strategol. Dywedodd y byddai yn ei ffurf derfynol yn gweithredu fel amddiffyniad i'r Fwrdeistref Sirol ac yn amddiffyn yr amgylchedd, ardaloedd trefol a thrigolion a dyna'r rheswm pam ei fod mor bwysig o ran cynllunio. Roedd yn arbennig o falch o weld bod gan yr Agenda Werdd amlygrwydd o fewn y CDLl gan roi amddiffyniad ychwanegol. Roedd y ddogfen hon yn amddiffyniad i CBSPAO ac adleisiodd y ple i breswylwyr gymryd rhan ac ymgysylltu â'r broses. Credai, wrth i Lywodraeth Cymru graffu ar y ddogfen, y byddai'r ddogfen yn cael ei hystyried yn un gadarn.

Adleisiodd yr Arweinydd ddiolch cydweithwyr i'r swyddogion yn y tîm a oedd wedi gweithio'n galed ar yr ymgymeriad enfawr hwn. Byddai'r manylion ymgynghori cyhoeddus ar gael ym mis Mehefin ac roeddent am i gynifer o bobl â phosibl gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Byddai'n effeithio ar bawb ac roedd yn ymwneud â swyddi, ysgolion, ynni gwyrdd a chartrefi newydd i'r boblogaeth sy'n tyfu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Heb gartrefi newydd byddai cynnydd mewn digartrefedd. Roedd cartrefi fforddiadwy a chymdeithasol wrth wraidd cynlluniau a safleoedd strategol. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, byddai ymatebion yn cael eu hystyried a newidiadau'n cael eu gwneud i'r cynllun. Byddai'n mynd at yr Arolygydd fel cam arall a byddai'r Arolygydd yn llunio barn. Pe na bai'r cynllun yn ddigon cadarn neu'n seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol yna gallai wrthod y cynlluniau a gallai o bosibl fwrw ymlaen â set wahanol o gynlluniau. Byddai'r cynllun yn y pen draw yn dod yn ôl i'r Cyngor Llawn ar gyfer penderfyniad. Ychwanegodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, pan fyddent yn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru, eu bod am i'r fersiwn honno fod y cynllun terfynol. Pe bai safleoedd nad oeddent yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn yna gallai'r Arolygydd ychwanegu neu ddileu safleoedd.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddogion am y cynllun a oedd yn amlwg yn ddarn sylweddol o waith. Roedd yn seiliedig ar lawer o dystiolaeth ac yn cwrdd â'r holl ofynion deddfwriaethol. Gofynnodd pa bwysau fyddai barn y cyhoedd yn ei gael ar y cynllun oherwydd gallai fod rhai elfennau na fyddai'n plesio pawb. Atebodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth bod

ymgynghori cyhoeddus yn hynod bwysig i'r broses, nid o reidrwydd nifer y gwrthwynebiadau ond ystyriaethau cynllunio perthnasol. Fe wnaethant annog aelodau'r cyhoedd i ganolbwyntio ar faterion fel traffig, tagfeydd,
effaith datblygiad o ran edrych dros gartrefi neu effaith ar hawliau tramwy. Roedd sylwadau yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol yn bwysig iawn.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod hwn yn gyfle i helpu i lunio'r CDLl. Gallai pawb sydd â diddordeb gymryd rhan gan gynnwys grwpiau fel pobl ifanc a phlant i helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol tymor hir.

Gofynnodd yr Arweinydd a allent gadarnhau, o ddatblygiadau mawr i ddatblygiadau ar raddfa gymharol fach, y byddai gofyniad sylfaenol ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy. Y llynedd gwnaeth 1500 o bobl gyflwyniadau i CBSPAO ar sail digartrefedd a rhoddwyd llety dros dro i 1000 o bobl oherwydd eu bod yn ddigartref. Cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y byddai gofyniad ac y byddai polisi ar dai fforddiadwy. Byddent yn cael cyfle i ddatblygu eu Canllawiau Cynllunio Atodol eu hunain ar dai fforddiadwy. Roeddent yn edrych i ddod â nifer o dai ymlaen ac o'r rheini, byddai 2000 yn fforddiadwy felly roedd hyn yn hollbwysig.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau’r Dyfodol iddynt beidio â defnyddio’r termau tai fforddiadwy a thai cymdeithasol yn gyfnewidiol. Roeddent yn wahanol fathau o dai ac roedd mwyafrif yr aelodau'n cefnogi'r syniad o dai cymdeithasol ychwanegol a oedd yn wahanol i dai fforddiadwy. O ran yr ymgynghoriad roedd hi'n gobeithio bod yr ymgynghoriad ar ffurf hygyrch gyda fersiwn hawdd ei ddarllen a fersiwn Gymraeg. Atebodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth ei fod wedi gweithio gyda'r Tîm Ymgysylltu i ddatblygu crynodeb annhechnegol o'r ddogfen a cheisio ei gwneud mor hygyrch â phosibl. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagnodi bod angen cyflwyno rhai tablau felly pe bai adborth negyddol yn cael ei dderbyn byddent yn bwydo hynny yn ôl i LlC.

Gofynnodd yr Arweinydd a allent sicrhau aelodau bod y seilwaith trafnidiaeth wrth galon y CDLl ac y byddai'n gwasanaethu'r gymuned a hefyd yr effaith ar aneddiadau cyfagos. Byddai'r cyhoedd hefyd yn holi am leoedd ysgol ac addysg a darparaeth gofal iechyd sylfaenol ac ati. Atebodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth fod y rhain wedi'u nodi yn y dogfennau o ran cynlluniau trafnidiaeth mawr. O ran seilwaith ffyrdd a'r effaith ar gymunedau lleol, roedd dogfen strategol yn cael ei pharatoi i fynd i'r afael â hyn. Roedd hwn yn ddarn enfawr o waith ac yn dal i fynd yn ei flaen. O ran cyfleusterau addysg newydd, roedd y gogwydd tuag at safleoedd hunangynhwysol mawr a fyddai’n gallu cynnwys eu hysgolion cynradd eu hunain. Byddai'r safleoedd hynny'n cael eu gwerthuso i sicrhau y gallent gyflawni hyn. O ran cyfleusterau iechyd, roeddent wedi ymgysylltu â'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau y byddai lefel y twf a gynigiwyd yn gallu cyrchu cyfleusterau meddygol digonol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:

a) Yn nodi a chymeradwyo'r Dogfennau Sylfaen Tystiolaeth Ategol a ddisgrifir yn y Tabl ym Mharagraff 4.27 o'r Adroddiad;
b) Yn cymeradwyo Drafft Adneuo’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2021 am gyfnod o 8 wythnos yn unol â'r Cytundeb Datblygu cymeradwy; a
c) Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gymunedau a’r Rheolwr Grŵp - Datblygu Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud unrhyw welliannau terfynol i'r ddogfen ymgynghori, papurau cefndir ategol a thystiolaeth dechnegol sy'n ofynnol cyn ymgynghori â'r cyhoedd ac i gyhoeddi'r Drafft Adnau a chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus.

662. DEFNYDDIO CYTUNDEBAU PERFFORMIAD CYNLLUNIO A MESURAU ADFER COST ERAILL AR GYFER PENDERFYNU CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad yn gofyn am awdurdodiad y Cabinet i ddefnyddio Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPA) gyda datblygwyr fel rhan o system o adfer costau wrth ddelio â chynigion datblygu mawr yn bennaf ac i gyflwyno mesurau adfer costau ychwanegol. Esboniodd fod PPA yn cael eu defnyddio'n helaeth ledled y DU a'u bod yn cael eu derbyn gan adeiladwyr tai a datblygwyr fel ei gilydd.

Amlinellodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yr adroddiad a'r hyn yr oedd yn gobeithio ei gyflawni. Dylid ystyried PPA fel offeryn effeithlonrwydd, a oedd yn darparu amserlen glir i symud cynigion datblygu sylweddol yn eu blaen gyda buddion economaidd cysylltiedig yn ogystal â lle bo angen, darparu adnoddau ychwanegol i sicrhau parhad gwasanaeth. Pwysleisiodd na ddylid ystyried PPA fel ffordd o ‘brynu’ caniatâd cynllunio neu oresgyn y broses gynllunio arferol.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweld nifer o gynigion datblygu mawr yn dod i’r golwg dros y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, roedd ehangu melin bapur WEPA ym Maesteg yn brosiect sylweddol gyda buddion economaidd dilynol yn lleol ac yn rhanbarthol. Roedd y cais hwn wedi profi’r timau yn eithaf sylweddol o’r cam gyn-ymgeisio i’r cyfnod ôl-benderfyniad ac ar un adeg roedd angen mewnbwn amser llawn nifer o swyddogion. Yn yr achos hwn, roedd y prosiect yn sensitif i amser ond fe'i cyflwynwyd yn brydlon yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio er bod ffrydiau gwaith eraill yn y gwasanaeth wedi'u gohirio o ganlyniad. Byddai defnyddio PPA mewn achosion o’r fath yn darparu fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer prosesu'r cais o'r cam cyn ymgeisio hyd at ryddhau amodau ynghyd â'r potensial i sicrhau adnoddau ychwanegol i gynorthwyo o ran gwneud gwaith yr aelodau staff hynny sy'n ymwneud yn llawn amser â'r prosiect.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y byddai PPA yn cael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau datblygu mwy ond y gellid eu defnyddio hefyd ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad a oedd yn gofyn am ymateb arbennig gan yr ACLl. Gallai hyn gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy neu ddatblygiad hanfodol ar safleoedd sensitif. Gellid defnyddio PPA hefyd fel rhan o ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Cyflwynwyd y ceisiadau hyn i Weinidogion Cymru a'u penderfynu trwy'r Arolygiaeth Gynllunio, a oedd yn cymryd y rhan fwyaf o'r ffi gynllunio. Yn yr achos hwn, byddai'r awdurdod lleol yn ymgynghorai statudol a byddai'n gyfrifol am gyflawni'r amodau ac unrhyw orfodaeth ddilynol. Roedd yn hanfodol felly y gellid adennill unrhyw gostau a gafwyd trwy sicrhau cyngor beirniadol gan y datblygwr.
Ychwanegodd, pan fyddai’r CDLl yn cael ei adnewyddu a'i fabwysiadu, roedd disgwyl cynnydd mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd strategol. Roedd angen iddynt allu rheoli'r ceisiadau hyn mor effeithiol â phosibl yn ychwanegol at y ceisiadau arferol o ddydd i ddydd.

Amlinellodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio cyfredol y telir amdano a'r gwasanaethau ychwanegol a ychwanegwyd mewn ymateb i alw gan y cyhoedd.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod y PPA wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd ac y gellid eu defnyddio i wneud iawn am yr ergydion a gafwyd yn sgil yr holl doriadau a wnaethpwyd ers 2010. Roedd y toriadau hyn wedi lleihau gwytnwch yr adran gynllunio ynghyd â chostau ychwanegol a ysgwyddwyd wrth barhau i ddarparu'r gwasanaeth. Roeddent wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd ac roedd o'r farn nad oedd graddfa'r taliadau yn ormodol.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol am eglurhad ynghylch yr effaith bosibl ar y datblygwyr llai. Atebodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu na fyddai'n rhagweld adeiladwr ar raddfa fach yn ymrwymo i gytundeb. Roedd a wnelo hyn fwy â chymhlethdod a lle byddai angen adnoddau ychwanegol. Roedd datblygiadau o hyd at 10 tŷ yn annhebygol o fod angen hynny ond byddai'n rhaid delio gyda phob achos yn unigol. Byddent ond yn ceisio arian i dalu'r costau yr eir iddynt y tu allan i'r ffi ymgeisio arferol. CBSPAO oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyflwyno gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio y telir amdano. Roedd yn amheus ar y dechrau ond o'r pwynt hwnnw ymlaen fe sylweddolon nhw fod y datblygwr yn barod i ymgysylltu a derbyn cyngor pwrpasol. Ni ddylid ystyried hyn fel menter gwneud arian ond dim ond i adfer yr hyn oedd ei angen. Roedd disgresiwn hefyd i hepgor y ffi os oedd angen fel yn achos grŵp difreintiedig neu brosiect cymunedol. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu am y sicrwydd a roddodd.

Ychwanegodd yr Arweinydd mai nodwedd allweddol o'r trefniadau hyn oedd eu bod yn drefniadau gwirfoddol ar gyfer y rhai a oedd eisiau gwasanaeth cyflymach neu wahanol a byddai'r canlyniad yn dal yr un fath.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

1. Yn cymeradwyo defnyddio Cytundebau Perfformiad Cynllunio ac unrhyw gyfraniad ariannol sy'n deillio o hynny neu'n gysylltiedig â hynny fel rhan o'r broses gynllunio.

2. Yn cymeradwyo Cynnydd o 5% dros y ddwy flynedd nesaf ar ein rhaglen cyn-ymgeisio y codir tâl amdani.Cynnydd yn y cyfraddau fesul awr ar gyfer cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr o £50 yr awr i £60 yr awr.

3. Ychwanegu Tystysgrifau Cyn-Brynu a Thystysgrifau Cwblhau at y gwasanaeth cynghori cyn-ymgeisio hyd at £300 y cais am dai unigol a rhwng £500 a £1000 ar gyfer adeiladau ar raddfa fwy.

4. Ychwanegu gwiriadau dilysu cyn cyflwyno o £90 - £200 yn dibynnu ar gymhlethdod y cynnig. Y dylid codi tâl am gwblhau trwydded Rhanddirymiad CNC i'r ymgeisydd ei anfon i CNC sef swm o £250 Cyflwyno tâl am ymgymryd â gorchmynion cau priffyrdd fel sy'n ofynnol gan ganiatâd cynllunio.

5. Yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gyflwyno Cytundebau Cynllunio Perfformiad ac i gytuno ar daliadau priodol i'w gwneud mewn Cytundebau Cynllunio Perfformiad ac, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol i ymrwymo i Gytundebau Perfformiad Cynllunio yn ôl yr angen.

663. CYN YSTÂD DDIWYDIANNOL FFORDD EWENNI : CYLLID CCR AC AILDDATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd sydd wedi'i wneud er mwyn cyflwyno adfywiad defnydd cymysg o hen Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Ewenni, Maesteg, a cheisio cymeradwyaeth i symud ymlaen â'r cyfnod diwydrwydd dyladwy ar gyfer cais am arian grant er mwyn sicrhau cyllid Cardiff Capital Region (CCR) ar gyfer y seilwaith a'r gwaith adfer angenrheidiol. Darparodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y berthynas barhaus â Pontardawe Coal & Metals Company Limited (PCMCL) a'r bwriad

ar y cyd gyda'r partïon i hwyluso'r gwaith o adfer, marchnata a gwerthu tir yn Ffordd Ewenni (Hen Safle Cooper Standard), Ystâd Ddiwydiannol Ewenni, Maesteg.

Fe esboniodd ei bod yn hen safle Ystad Ddiwydiannol Ffordd Ewenni yn ardal wag o 19.71 erw o dir sy'n eiddo'n rhannol i CBSPAO ac yn rhannol gan PCMCL. Mae PCMCL yn is-gwmni i Clowes Development (UK) Ltd, cwmni datblygu eiddo a buddsoddi sylweddol sy'n eiddo i'r teulu sydd wedi'u lleoli yn Derby.

Roedd CBSPAO yn berchen ar 7.52 erw (Cyn Safle Cooper Standard) tra bod PCMCL yn berchen ar 12.19 erw (Cyn Safle Budel Pac Cosi), gyda hyn yn adlewyrchu rhaniad perchnogaeth o ran y nifer o erwau o tua 40% CBSPAO a 60% o dir sy'n eiddo i PCMCL. Mae'r ddwy ochr wedi cwblhau gwaith dymchwel a chlirio safleoedd yn barod i'w ddatblygu o'r blaen er bod y diffyg hyfywedd wedi arwain at y safle 19.71 erw yn parhau heb ei ddatblygu ac mewn cyflwr adfeiliedig.

Yn dilyn asesiad o'r cais, penderfynodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu gymeradwyo'r cais yn amodol ar gwblhau'r rhwymedigaethau cynllunio. Diwygiwyd y cynnig cychwynnol hwn wedyn mewn ymgais i wella hyfywedd y cynllun a phenderfynodd y Pwyllgor hwn i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun diwygiedig hwn ym mis Mehefin 2016. Cytunwyd hefyd yn flaenorol  â PCMCL ar gyfer gwaredu tir sy'n eiddo i CBSPAO ac awdurdodwyd y rhain gan y Cabinet ar 10 Mai 2016.

Yna amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau wybodaeth benodol, fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad, am waith angenrheidiol pellach ar y safle hwn, er mwyn ei wella. O ystyried y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, yn ol y Cyfarwyddwr nid oedd datblygu'r ardal bellach yn hyfyw yn ariannol heb gymorth ariannol ychwanegol.

Ym mis Medi 2020 fe lansiwyd y *Cardiff Capital Region (CCR) Housing Viablility Gap Fund*. Mae'r gronfa hon yn rhaglen buddsoddi tai sy'n werth £35 miliwn wedi'i thargedu i oresgyn methiannau tystiolaethol yn y farchnad mewn perthynas â hyfywedd ariannol ledled De-ddwyrain Cymru. Roedd swyddogion wedi cydweithio â PCMCL i baratoi cyfres gynhwysfawr o ddogfennau cais a chyflwyno'r cynllun i'w ystyried fel rhan o'r gronfa hon.

Yn dilyn cyfnod o werthuso gan CCR a CBRE, fe nododd adroddiad i Gabinet CCR ar 15 Mawrth 2021 amserlen ddangosol o safleoedd a oedd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyllid, gyda Hen Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Ewenni, ar y rhestr fer gyda chyllid o £3.5 miliwn.

Parhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, drwy ddweud mai bwriad y *CCR Viablility Gap Fund* oedd datgloi datblygiadau a oedd yn arwain at godi tai ar safleoedd lle mae'r costau seilwaith ymlaen llaw yn golygu nad yw'r cynllun yn hyfyw ac yn cael ei atal o ganlyniad i hynny. Mae Cronfa *CCR* yn ceisio sicrhau'r enillion economaidd gorau posibl drwy fuddsoddi yn y safleoedd sydd wedi'u lleoli'n fwyaf strategol sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian.  Roedd Rhaglen Gyllido'r CCR wedi'i strwythuro i dargedu'r ardaloedd oedd leiaf gystadleuol yn economaidd o fewn y rhanbarth, fel y'i hysbyswyd gan Fynegai Cystadleurwydd y DU 2019. Roedd hyn i'w gyflawni drwy ddull blaenoriaethu'r gronfa hollt a nodir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Yn ogystal â'r ddwy is-gronfa £15 miliwn a amlinellwyd yn rhan uchod o'r adroddiad, roedd £5 miliwn ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer cynlluniau a allai fodloni gofynion penodol. Nid oedd CBSPAO yn gymwys ar gyfer is-gronfa 1 ac nid oedd amodau ariannu Llywodraeth Cymru yn briodol, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i bob uned breswyl fodloni safonau gofod na ellir eu cyflawni ar gyfer safle Ffordd Ewenni. O'r herwydd, roedd y safle'n gymwys ar gyfer ei chyflwyno iâr gyfer ei hystyried fel rhan o'r is-gronfa 2 sy'n werth £15 miliwn.

Yn dilyn cyfnod o asesu a diwydrwydd dyladwy cychwynnol, rhyddhaodd CCR restr fer ddangosol ym mis Mawrth 2021 ac a gymeradwywyd gan Gabinet CCR ar 15 Mawrth 2021. Roedd y rhestr fer hon yn cynnwys hen gynllun Ffordd Ewenni lle mae uchafswm o £3.5 miliwn o gyllid wedi'i glustnodi ar ei gyfer.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau felly, ei bod hi bellach yn angenrheidiol gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r cais llawn. Byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Cabinet i geisio cymeradwyaeth i dderbyn cytundeb cyllido, pe byddai'r cais yn llwyddiannus.

Roedd gweddill adrannau'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r Uwch Gynllun yn y cam drafft, er mwyn sicrhau bod cynigion yn cynnwys ar gyfer adfywio ymysg ar y safle, (fel y nodir ym mharagraff 4.9 o'r adroddiad), y gydberthynas â PCML a'r camau nesaf i'w cymryd o hyn ymlaen.

Cwblhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei hadroddiad, drwy gyfeirio at y goblygiadau ariannol o ran y cynigion.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau yr adroddiad a'i gynigion, a oedd, yn ei dro, yn bennaf oherwydd bod y Cyngor yn rhan o drefniant Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fyddai'n darparu cyllid grant ar gyfer yr hyn a gynigiwyd ar y safle. Byddai datblygu'r safle yn rhoi'r gallu i CBSPAO wneud cais am gyllid Metro, er mwyn creu cyfleuster Parcio a Theithio yn Ffordd Ewenni. Byddai'r cynigion datblygu hefyd yn cynorthwyo agenda gwyrdd yr Awdurdod, h.y. gyda darparu cerbydau trydan, yn ogystal ag ardal chwarae i blant.

Adleisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio bwysigrwydd bod y Cyngor yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Bargen Caerdydd, a oedd yn cynorthwyo i gefnogi gwaith datblygu ar y safle hwn, yn ychwanegol i'r orsaf trafnidiaeth arfaethedig ym Mhorthcawl ynghyd a gwell cysylltiadau trafnidiaeth yng ngorsaf y Pîl. Fe ychwanegodd hefyd y byddai prosiectau eraill hefyd yn dilyn hyn. Roedd yn falch o weld cyfres mor amrywiol o gynigion datblygu mewn un lleoliad, a oedd yn safle tir llwyd, yn cynnwys canolfan drafnidiaeth, ynghyd â datblygiadau preswyl a masnachol, ymhlith elfennau eraill.

Roedd yr Arweinydd hefyd yn falch o weld ymrwymiad yn cael ei wneud tuag at adeiladu dros 180 o gartrefi a oedd yn cynnwys tai fforddiadwy i bobl leol, a fyddai'n golygu mai hwn fyddai'r datblygiad tai mwyaf ym Maesteg, ynghyd â chyfleuster parcio a theithio a chanolfan fenter newydd a fyddai'n gwasanaethu Cwm Llynfi. Doedd hyn i gyd ond yn cael ei wireddu o fod yn aelod o Fargen Dinas Caerdydd. Nododd yn ei ddiweddglo mai hwn hefyd oedd y prosiect adfywio mwyaf a ymgymerwyd ag ef ym Maesteg o fewn cenhedlaeth.

PENDERFYNWYD: Fod y Cabinet wedi:

- Nodi'r cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â chynigion adfywio ar gyfer hen Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Ewenni, y bwriad i adfer, marchnata a gwaredu'r safle er mwyn hwyluso adfywio defnydd cymysg;
- Swyddogion awdurdodedig i barhau i gysylltu â CCR ar y cyflwyniad terfynol ar gyfer grant y Gronfa *Housing Viability Gap Fund* lle' oedd y safle wedi cyrraedd y rhestr fer.
- Cytunwyd i dderbyn adroddiad yn y dyfodol ar y telerau cytundebol y dylid cytuno arnynt gyda PCMCL ar y bwriad i ailddatblygu'r safle.

- Cytunwyd i dderbyn adroddiad yn y dyfodol ar unrhyw oblygiadau ariannol i'r awdurdod o ran datblygu'r ailddatblygiad arfaethedig.
- Dirprwyo derbyn grant tuag at ailddatblygu Hen Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Ewenni i Gyfarwyddwr Cymunedau a Swyddog Adran 151.

664. LLWYBR YMDDIRIEDOLAETH CŴN

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad, er mwyn gofyn am gymeradwyaeth i gymryd rhan a chynnal Llwybr Snoopi Bach gan Ymddiriedolaeth Cŵn ym Mhorthcawl yn 2022; i drefnu cytundeb rhwng *Dogs Trust Trustee Limited* a *Dogs Trust Promotions Limited* a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO), ac amlinellu'r gost gysylltiedig ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Cadarnhaodd yr adroddiad cefndir fod Tîm Datblygu Corfforaethol y *Dogs Trust* wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO), i gynnal llwybr bach ym Mhorthcawl fel estyniad i brif Lwybr Cŵn Caerdydd gyda Snoopi yn 2022. Roedd yr amserlen arfaethedig bresennol am gyfnod o 10 wythnos o fis Mawrth i fis Mehefin 2022, er y gallai hyn newid gan ei fod yn ddibynnol ar yr amgylchiadau yn nes at yr amser.

Fe esboniodd fod y cynnig wedi'i seilio ar y llwybr Gwyllt mewn Celf (Wild in Art) a'i fod wedi hen sefydlu. Hyd yma, mae dros 50 o lwybrau wedi'i sefydlu ledled y byd. Enghraifft ddiweddar oedd llwybrau Cŵn Eira Caerdydd (*Cardiff Snowdogs*) yn 2017, a ddenodd 350k o ymwelwyr dros gyfnod o 10 wythnos ac a gynhyrchodd £10.5m i'r economi leol. Roedd y prosiect yn awyddus i weld ehangu llwybrau eraill cysylltiol gydag o leiaf 6 cerflun o Snoopi i'w weld ar draws y rhanbarth.

Mae'r cynnig Llwybr y Cŵn yn cyflawni nifer o amcanion llesiant corfforaethol y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi'r economi leol. Un o'r tair blaenoriaeth gyffredinol yng Nghynllun Rheoli Cyrchfannau Pen-y-bont ar Ogwr 2018 - 2022 oedd codi'r proffil a denu mwy o ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy Gysylltiadau Cyhoeddus wedi'u targedu a marchnata a datblygu portffolio amrywiol o ddigwyddiadau, gan gynnwys denu digwyddiadau newydd o arwyddocâd rhanbarthol neu genedlaethol.

Byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno fel estyniad i brif lwybr Caerdydd, gyda mynediad hawdd i ymwelwyr ac o leiaf 6 cerflun o fewn y gyrchfan. Byddai hyn yn cael ei nodi er mwyn creu o leiaf ymweliad hanner diwrnod.

Yn ogystal â'r manteision cymunedol, twristiaeth a manteision economaidd, roedd rhaglen Ddysgu gynhwysfawr yn gysylltiedig â'r prosiect a fyddai'n anelu at gysylltu â 130 o ysgolion ar draws rhanbarth De Cymru. Rhagwelir y bydd llawer ohonyn nhw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Byddai tîm Cyfarwyddwr Corfforaethol Llwybrau Cŵn Cymunedau yn rheoli pob agwedd ar gynllunio a darparu llwybrau, heb unrhyw ofyniad i CBSPAO gymryd rhan allweddol, ac eithrio helpu i recriwtio cyfranogwyr rhaglenni dysgu a hwyluso cyswllt ag amrywiol adrannau'r Cyngor mewn perthynas â'r llwybr.

Roedd yn ofynnol i CBSC ymrwymo i Gytundeb Nawdd gydag Ymddiriedolwyr *Dogs Trust Trustee Limited* a *Dogs Trust Promotions Limited*. Ychwanegwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r partïon perthnasol ynghylch telerau'r Cytundeb Noddi hwn.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Gymunedau ymhellach os, yn dilyn y trafodaethau na ellir cytuno ar y telerau terfynol rhwng y partïon neu fod unrhyw risgiau wedi dod i'r amlwg i CBSPAO na ellir eu dileu na'u lliniaru, yna ni fydd CBSPAO yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn,

Cwblhaodd ei chyflwyniad, drwy gadarnhau goblygiadau ariannol yr adroddiad a olygai y byddai ymrwymiad gan CBSPAO o £30k fel cyfraniad untro, a fyddai'n cael ei dalu o'r Gronfa Digwyddiadau Twristiaeth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nad oedd llawer o ganolfannau ailgartrefu cŵn yr oedd yn ymwybodol ohonyn nhw ledled y DU, ond roedd yn falch o weld bod yr un a leolir ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn Elusen sy'n ehangu. Roedd Porthcawl, yn ei farn ef, yn lleoliad da ar gyfer y digwyddiad ac roedd yn ymwybodol bod y cynnig wedi'i drafod gyda grwpiau Fforwm lleol yn yr atyniad glan môr hwn, fel y Grŵp Rheoli Cyrchfannau sy'n delio â thwristiaeth a Grŵp Partneriaeth yr Arfordir, sy'n ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynnwys Cyngor Tref Porthcawl, yn ogystal ag Aelodau CBSPAO.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod gan y Cyngor gysylltiad hir â'r Ymddiriedolaeth Cŵn (*Dog Trust*) ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a oedd wedi ffynnu ac ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd hefyd yn cytuno â'r 'Llwybr Snoopy' a fyddai'n annog twristiaeth a dod a refeniw ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol. Roedd hefyd yn atyniad ychwanegol ym Mhorthcawl, ynghyd â'r cyfleuster trên Noddy newydd.

Sylwodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol o'r adroddiad, fod nifer o leoliadau gwahanol posibl ar gyfer Llwybr Snoopy yn y Fwrdeistref Sirol, ond bod yr Ymddiriedolaeth Cŵn wedi dewis Porthcawl fel lleoliad ar gyfer hyn. Gofynnodd pa ardaloedd eraill a gyflwynwyd, o gofio bod ardaloedd hyfryd eraill (fel yn ein lleoliadau yn y cymoedd), lle gallai hyn fod wedi digwydd fel arall.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol cymunedau, pan gysylltodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Cymru, eu bod yn rhoi set o ofynion i'r Awdurdod y bu'n rhaid eu bodloni o ran lleoliad addas, er enghraifft, rhannau gwastad o dir ym mherchnogaeth y Cyngor, a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac ati ac a oedd o hyd gofynnol penodol. Yna aeth y Cyngor yn ôl i'r Ymddiriedolaeth Cŵn gyda rhestr o leoliadau addas a oedd yn cyd-fynd â'r gofynion hyn, a oedd yn cynnwys llwybrau yn y cymoedd. Fodd bynnag, ohonynt roedd yr Ymddiriedolaeth yn teimlo mai Porthcawl oedd y mwyaf addas o'r holl awgrymiadau a gyflwynwyd iddynt. Fodd bynnag, ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, ar gyfer unrhyw syniadau neu ddigwyddiadau tebyg i'r un a oedd yn rhan o'r adroddiad, y gellid edrych ar y rhain mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol.

Nododd y Dirprwy Arweinydd yr ymrwymiad ariannol o £30k a gofynnodd a fyddai'r cerfluniau sy'n cael eu cynnig yn parhau fel rhan o hyn.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai'r rhain yn cael eu cwblhau fel rhan o'r digwyddiad, er mwyn cynyddu gwerth yr atyniad ar gyfer twristiaeth a'r refeniw a fyddai'n dod o hynny. Fodd bynnag, ar ôl y digwyddiad, byddai'r Ymddiriedolaeth Cŵn yn gwerthu cerfluniau Snoopy.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Ymddiriedolaeth Cŵn Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu galwadau digynsail, gan eu bod yn wynebu derbyn mwy a mwy o gŵn gan gynnwys cŵn bach. Y gobaith yw y bydd y digwyddiad hwn yn helpu i gefnogi'r Elusen. Byddai'r digwyddiad hefyd yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Phorthcawl a byddent yn gwario arian mewn siopau a busnesau yno. Byddai hyn yn eu helpu i wneud iawn am yr

hyn yr oedden nhw wedi'i golli o ran incwm a refeniw, gan fod y siopau wedi bod ar gau oherwydd pandemig Covid-19.

PENDERFYNWYD: Mae'r Cabinet hwnnw, yn amodol ar gytuno ar delerau'r Cytundeb Noddi fel y nodir yng nghymal 3.7 yr adroddiad (cywiriad i'r adroddiad sy'n darllen cymal 4.7 ):-

- cymeradwywyd bod CBSPAO yn cymryd rhan ac yn cynnal Llwybr Snoopi Bach yr Ymddiriedolaeth Cŵn ym Mhorthcawl yn 2022;

- cymeradwyo'r defnydd o £30,000.00 o gyllid Digwyddiadau Twristiaeth fel yr amlinellir yn adran 8;

- awdurdod dirprwyedig i’r cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn cydweithrediad a Prif Swyddog - Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid i gytuno a chymeradwyo’r termau ar gyfer y cytundeb nawdd ac i drefnu gweithredu’r cytundeb ar ran y Cyngor.

665. AIL-GOMISIYNU GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH ARBENIGOL

Fe gyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad er mwyn:-

- Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r cynllun ail-gomisiynu arfaethedig ar gyfer gwasanaethau Byw â Chymorth Arbenigol, ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) i gynnal ymarfer caffael i wahodd tendrau i sefydlu Cytundeb Fframwaith ar gyfer darparwyr sy’n darparu gwasanaethau arbenigol;
- Ceisio awdurdod i amrywio'r contract presennol gyda DRIVE Ltd mewn perthynas â'r gwasanaethau byw â chymorth arbenigol yn Clos Penglyn, a hynny trwy ymestyn y tymor presennol am 12 mis arall, yn unol â Rheol Gweithdrefn y Contract (CPR) 3.2.9.3.

Dechreuodd drwy ddweud bod y Cyngor, ers 2015, mewn cydweithrediad â chydweithwyr ym maes iechyd, wedi caffael tri gwasanaeth byw â chymorth arbenigol i bobl ag anableddau dysgu. Roedd y gwasanaethau hyn wedi'u lleoli mewn tai o'r enw Clos Penglyn, Condors Rest a Viesther, a adwaenir ar y cyd fel y prosiect *Closer to Home*, ac fe'u meddiannwyd gan un ar ddeg o unigolion.

Nod y prosiect Agosach at y Cartref (*Closer to Home*) oedd darparu gwasanaethau byw â chymorth lleol ac arbenigol i bobl ag anabledd dysgu oedd a lefel uchel o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Unigolion a fyddai fel arall yn byw y tu allan i'w hardal leol mewn darpariaeth breswyl fwy arbenigol. Roedd gan yr holl bobl a oedd yn byw yn y cynlluniau hyn eu tenantiaeth eu hunain a threfniadau cymorth pwrpasol wedi'u cynllunio o amgylch eu hanghenion unigol.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod grwpiau gweithredol a strategol hefyd a oedd yn goruchwylio'r gwaith o reoli'r cynlluniau o ddydd i ddydd ynghyd a chyfeiriad strategol y prosiect Agosach at y Cartref.

Yn dilyn adolygiad manwl o'r cynlluniau generig yn 2018-19 a gynhaliwyd gan dîm Trawsnewid ac Adolygu Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor ar effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ynghyd a'r canlyniadau, daethpwyd i'r casgliad y byddai tri o'r cynlluniau a adolygwyd yng Nglyn y Mel, Pencoed, Byngalo Tregroes, Pencoed a 107 Cwrt Coed Parc, Maesteg yn fwy addas i'w cynnwys o fewn trefniant gwasanaeth arbenigol, oherwydd anghenion y saith unigolyn sy'n byw yn y lleoliadau hyn. Penderfynwyd grwpio pob un o'r chwe cynllun gyda'i gilydd o dan y categori Gwasanaeth Agosach at y Cartref. Roedd gan y cynlluniau hyn a nodwedd gyffredin hefyd, swf bod elfen o gyllid yn dod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mhob un ohonyn nhw.

Dywedodd ei fod wedi'i gytuno gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fod angen Strategaeth Comisiynu Agosach at y Cartref newydd a bod grŵp cynllunio newydd wedi'i ffurfio i baratoi'r dadansoddiad o'r anghenion a chreu'r gwasanaethau llety a gofal a chymorth gorau posibl.

Gan droi at y sefyllfa bresennol, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod digwyddiad profi'r farchnad wedi'i gynnal ar 19 Ebrill 2021 lle rhoddodd y darparwyr a oedd yn bresennol adborth gadarnhaol iawn ar sut yr oedd cynlluniau byw â chymorth y Cyngor wedi'u hailgomisiynu yn 2020. Roedd yn amlwg o'r cyfarfod hwn mai'r dewis a ffefrir ar gyfer ailgomisiynu Gwasanaethau Byw â Chymorth Arbenigol oedd defnyddio model tebyg ar gyfer paratoi'r manyleb ar gyfer y gwasanaeth, lle byddai pwyslais clir ar gyd-gynhyrchu a chreu gwell cysylltiadau cyfathrebu rhwng y darparwyr a chomisiynwyr y gwasanaeth. Fel gyda'r fframwaith byw â chymorth, y cynnig yw ein bod yn cynnig Cytundeb Fframwaith pedair blynedd, a fydd yn sicrhau bod y ddau fath o wasanaeth yn cyd-fynd â'i gilydd.

Roedd y cynigion yma fel a ganlyn:

a. Cam 1 – Cynnal ymarfer caffael ym mis Mai 2021 i sefydlu Cytundeb Fframwaith gyda nifer o ddarparwyr gwasanaethau sy'n bodloni'r fanyleb ansawdd a nhw fyddai wedyn yn cael eu hystyried ar gyfer cyflawni'r Cynlluniau Byw â Chymorth Arbenigol rhestredig yn y dyfodol (y "Gwasanaeth Arbenigol") – y Cytundeb Fframwaith i'w ddyfarnu erbyn mis Tachwedd 2021;

b. Cam 2 – Ymgymryd â chyfres o dendrau yn ol y gofyn o dan y Cytundeb Fframwaith ar gyfer pob Gwasanaeth Arbenigol. Bydd hon yn broses caffaeliad graddol a fydd yn cael ei gweithredu dros nifer o fisoedd ar ôl dyfarnu'r Cytundeb Fframwaith.

Aeth ymlaen i gadarnhau bod y Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr gwasanaethau profiadol o ansawdd uchel, a byddai pwyslais cryf iawn ar ansawdd fel rhan o broses gwerthuso tendrau'r Cytundeb Fframwaith. Er mwyn galluogi hyn, bydd y gymhareb cost:ansawdd o 20:80 yn cael ei phwysoli'n gryf o blaid ansawdd a fyddai'n cael ei gwerthuso drwy'r ymatebion ysgrifenedig gan y darparwyr, yn ogystal â chyflwyniadau a/neu gyfweliadau sy'n rhan o'r broses dendro.

Mae'r tabl ym mharagraff 4.8 o'r adroddiad yn nodi'r amserlenni caffael arfaethedig ar gyfer Cam 1 ar gyfer gweithredu'r cynllun ailgomisiynu.

Cynigiwyd ymhellach bod y Cyngor yn cynnal ymarfer caffael (Cam 2) dros y 12 mis nesaf er mwyn ail-gomisiynu’r gwasanaethau hynny sydd wedi’u rhestru.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio awdurdod i amrywio'r contract presennol gyda DRIVE Ltd mewn perthynas â'r gwasanaeth byw â chymorth arbenigol yng Nghlos Penglyn, a hynny trwy ymestyn y tymor presennol am 12 mis arall, yn unol â Rheol Gweithdrefn y Contract (CPR) 3.2.9.3. Cafodd y disgrifiad swydd a'r arbedion cost diwygiedig eu hamlinellu yn yr adroddiad hefyd.

Roedd y gwaith cysylltu angenrheidiol bellach wedi'i wneud, ond er mwyn alinio'r holl Gynlluniau Byw â Chymorth Arbenigol a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor, fe gynigiwyd bod y Cyngor yn awdurdodi ymestyn y telerau presennol ar gyfer Clos Penglyn am 7 mis arall hyd at 31 Mawrth 2022 , yn unol â CPR 3.2.9.3.

Cwblhawyd yr adroddiad drwy amlinellu'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chynigion yr adroddiad.

Gofynnodd yr Arweinydd a fydd y defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, lle'r oedd yn briodol, yn cymryd rhan yn y trefniadau comisiynu arfaethedig o ran y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt drwy'r gwasanaeth. Roedd gan rai o'r cleientiaid hyn anghenion cymhleth iawn. Yn ail, gofynnodd i ble y byddai'r gwasanaethau cymorth hyn yn cael eu lleoli ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod ganddi brofiad uniongyrchol o weld yn uniongyrchol yr anghenion cymhleth sydd gan rai o'r bobl ifanc hyn gan fod angen y gwasanaethau cymorth hyn arnynt a faint o fewnbwn y mae gwasanaethau allweddol fel y rhai a enghreifftiwyd yn yr adroddiad yn effeithio ar benderfynu ar y dyfodol y maent am ei arwain mewn bywyd. Dyma ddechrau eu taith a byddai'r cymorth arbenigol a ddarperir drwy'r cyfleusterau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn eu helpu i fynd ymlaen i fyw'r bywyd gorau posibl. Fe ychwanegodd ei bod yn bwysig mabwysiadu strategaethau sy'n canolbwyntio ar bob unigolyn. Byddai hynny yn ei dro yn helpu'r bobl ifanc hyn i fyw bywyd annibynnol gyda chefnogaeth. Fel y crybwyllodd yr Arweinydd, roedd yn bwysig iawn ymgysylltu â'r unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr, er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i bob unigolyn a bod y gofynion gwahanol hynny sydd ganddynt yn derbyn cefnogaeth.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r rhai a oedd yn eu cefnogi, drwy'r broses gomisiynu, 'lais a dewis', o ran y math o gymorth a'r lefel o gymorth a roddwyd ar waith ar eu cyfer. Byddai arbenigwyr fel y rhai mewn Gofal Cymdeithasol, Iechyd a'r Anabledd Dysgu yn sicrhau bod hyn yn digwydd, drwy weithio mewn modd integredig. Byddai Pobl yn Gyntaf hefyd yn darparu cymorth o gynnal cysylltiad parhaus drwy'r broses ail-gomisiynu. Roedd trefniadau eiriolaeth annibynnol hefyd yn hollbwysig wrth i'r gwasanaeth newid, ychwanegodd. O ran y llety cefnogol, byddai 3 o'r fath ar gael ym Mhencoed ac 1 yr un yn ardaloedd Tondu, Cwmfelin a Maesteg. Y weledigaeth tymor hir oedd ychwanegu at y rhain i gynnwys rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol.

PENDERFYNIAD: Fod y Cabinet wedi:

- Cymeradwyo'r cynllun ail-gomisiynu a gynigiwyd ar gyfer gwasanaethau Byw â Chymorth Arbenigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Cymeradwyo gwahoddiad tendrau i sefydlu Cytundeb Fframwaith ar gyfer darparwyr arbenigol a gomisiynwyd;

- Fod y Cabinet yn awdurdodi addasu'r contract presennol gyda DRIVE Ltd mewn perthynas â Chlos Penglyn drwy ymestyn y tymor presennol am 12 mis arall hyd at 31 Awst 2021, yn unol â CPR 3.2.9.3.
- Nodwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, yn gofyn am gymeradwyaeth i ymrwymo i Gytundeb Fframwaith ar gyfer gwasanaethau Byw â Chymorth a gomisiynwyd yn allanol ac i weithredu'r broses o gaffael tendrau Gwasanaeth Arbenigol yng Nghyfnod 2.

666. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdod lleol i'r cyrff llywodraethu ysgolion a restrir ym mharagraff 4.1 a 4.2 yr adroddiad.

Fel cefndir i'r adroddiad, fe ddywedodd fod swyddogion, yn unol â 'Chanllawiau ar benodi llywodraethwyr awdurdodau addysg lleol' a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 14 Hydref 2008, wedi ystyried ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer swyddi gwag presennol ac arfaethedig ar gyfer swyddi llywodraethwyr awdurdodau lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion (gweler paragraff 4.1 ac Atodiad A, i'r adroddiad).

Eglurodd fod pob un o'r 8 ymgeisydd a restrwyd ar gyfer y 6 ysgol sydd yn nhabl paragraff 4.1 yr adroddiad yn bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer penodi'n llywodraethwyr awdurdodau lleol ac nad oedd cystadleuaeth am unrhyw un o'r swyddi gwag felly fe benodwyd yr ymgeiswyr hyn.

Fodd bynnag, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod 28 o swyddi gwag o hyd a bod angen eu llenwi mewn 20 ysgol, fel y dangosir yn yr Atodiad amgaeedig.

Estynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei ddiolch i bawb a oedd wedi gwirfoddoli ac annog pobl eraill a warchodir gan y gymuned, i ystyried dangos diddordeb mewn gwneud cais am y swyddi gwag nad oeddent wedi'u llenwi ar hyn o bryd. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y byddai'r rhain yn parhau i gael eu llenwi maes o law.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

667. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 17:35